Cofnodion cyfarfod cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 18 Rhagfyr 2017, am 7:00pm.

PRESENNOL: Cynghorwyr Jim Bryan (Maer) ac Ian Lewney (Dirprwy Faer)
Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Gavin Harris, Ken Hawkins, Menna Jones, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape, Heather Williams, Ifan Wyn ac Emrys Wynne.

158. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

159. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fudd.

160. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn y digwyddiadau isod.

28.11 Noson Gaws a Gwin y Maer yn y Myddelton Grill on the Square
02.12 Goleuo'r goleuadau Nadolig ar y goeden yn Sgwâr Sant Pedr
04.12 Gwasanaeth Carolau Cadeirydd Cyngor Sir Ddinbych yn Eglwys Sant Tomos, Y Rhyl I
07.12 Gwasanaeth Carolau Ruthin School yn Eglwys Sant Pedr, Rhuthun
10.12 Bore Coffi Sglerosis Ymledol yn Llyfrgell Rhuthun
14.12 Digwyddiad mins peis a gwin cynhesol Cyfreithwyr Swayne Johnson
15.12 Dosbarthu cysuron y Nadolig
17.12 Gwasanaeth Naw Llith a Charol yn Eglwys Sant Pedr, Rhuthun

161. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Ian Lewney	Noson Gaws a Gwin y Maer, goleuo'r goleuadau Nadolig ar y goeden yn Sgwâr Sant Pedr a dosbarthu cysuron y Nadolig
Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Noson Gaws a Gwin y Maer a goleuo'r goleuadau Nadolig ar y goeden yn Sgwâr Sant Pedr
Cyng. Stephen Beach	Noson Gaws a Gwin y Maer a Fforwm Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych
Cyng. Robert Owen-Ellis	4 sesiwn Banc Bwyd, deuddydd casglu bwyd yn Tesco a llunio'r hamperi Nadolig, goleuo'r goleuadau Nadolig ar y goeden yn Sgwâr Sant Pedr, Pwyllgor Iechyd a Diogelwch Llywodraethwyr Ysgol Pen Barras a chyfarfod y Corff Llywodraethu, perfformiad disgyblion Cyfnod Sylfaen Ysgol Pen Barras yng Nghapel Pendref a chyfarfod rheoli perfformiad Pennaeth Ysgol Pen Barras gyda GwE
Cyng. Menna Jones	Goleuo'r goleuadau Nadolig ar y goeden yn Sgwâr Sant Pedr
Cyng. Anne Roberts	Noson siopa hwyr yn Lifestyle Garment Spa, Lôn Parcwr, goleuo'r goleuadau Nadolig ar y goeden yn Sgwâr Sant Pedr a chyfarfod Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch
Cyng. Dave Snape	Cyfarfod Grŵp Busnes Rhuthun, noson Gaws a Gwin y Maer, goleuo'r goleuadau Nadolig ar y goeden yn Sgwâr Sant Pedr a Phwyllgor Rheoli Theatr John Ambrose
Cyng. Heather Williams	Pwyllgor Rheoli Canolfan Awelon
Cyng. Ifan Wyn	Pwyllgor Rheoli Theatr John Ambrose
Cyng. Emrys Wynne	Cyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Borthyn, Fforwm Pobl Hŷn Age Connect yn Llys Awelon, taith gerdded o gwmpas Rhuthun gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, goleuo'r goleuadau Nadolig ar y goeden yn Sgwâr Sant Pedr, cyfarfod gyda Grace Kirk a David Jones AS yng Nghae Ddôl i drafod cyflwr rhannau o'r cae, diffyg seddi a diffyg darpariaeth i gŵn redeg yn rhydd.

162. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2017 yn gofnod cywir.*

163. MATERION YN CODI

Cyfeiriwyd yr aelodau at lythyr gan y Dr Mohammed Mehmet, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych, yn esbonio statws safle Ysgol Pen Barras ac Ysgol Stryd y Rhos a'r dyhead i ddatblygu Canolfan Iechyd ar y safle.

164. CYFETHOL CYNGHORYDD TREF

Cynigiwyd a chytunwyd i gynnal pleidlais gyfrinachol ar bapur er mwyn cyfethol cynghorydd tref newydd o blith y pedwar unigolyn a oedd wedi mynegi diddordeb. Dosbarthodd a chasglodd y Clerc y papurau pleidleisio, a dilyswyd y cyfrif gan y cyfieithydd ar y pryd. Cyhoeddodd y Maer fod John Wynne Hughes wedi'i ethol trwy bleidlais fwyafrifol.

***PENDERFYNWYD**: cysylltu gyda John Wynne Hughes i'w wahodd i lofnodi'r datganiad derbyn y swydd.*

165. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – CLWB CRICED RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais am £700 tuag at gost rhwydi criced allanol gan Glwb Criced Rhuthun. Cynigiwyd ac eiliwyd y swm llawn a

***PHENDERFYNWYD**: darparu £700 o gymorth ariannol i Glwb Criced Rhuthun, gyda chais i gydnabod cyfraniad y Cyngor Tref trwy arddangos ei logo.*

166. ADNEWYDDU AELODAETH SLCC

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried adnewyddu aelodaeth y Clerc gyda Chymdeithas y Clercod Cyngor Lleol (SLCC) ar gost o £165.00.

***PENDERFYNWYD**: adnewyddu aelodaeth y Clerc gyda'r SLCC.*

167. DINESYDD DA 2018

Gofynnwyd i'r aelodau gytuno ar ddyddiad ar gyfer cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da.

***PENDERFYNWYD**: y byddai'r Clerc yn anfon dyddiadau arfaethedig ar gyfer cyfarfod ym mis Ionawr.*

168. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Adroddiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Tachwedd 2017.

***PENDERFYNWYD**: derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Tachwedd 2017.*

169. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*

5116	CAB Rhuthun	Cymorth ariannol 2017-18		£2,000.00
5117	Fineline	Nwyddau swyddfa	*	£36.26
5118	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac yswiriant gwladol		£274.90
5119	Marian Rees	Gwasanaeth cyfieithu ar y pryd	*	£90.00
5120	Sandra Williams	Tarian gan Jaycee Trophies		£78.98

170. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 22 Ionawr 2018 am 7.00pm.*